**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 05-02(p8)**

**Dyddiad:** **6 Mawrth 2001**
**Amser:** **2.00 - 5.30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Pwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **FFRAMWAITH ADFYWIO'R PUM SIR**

**Pwrpas**

1. Darparu Fframwaith Adfywio'r Pum Sir i'r Pwyllgor ei drafod.

**Crynodeb**

2. Yn dilyn yr ymrwymiad i baratoi strategaeth adfywio gynhwysfawr ar gyfer De Ddwyrain Cymru ar ôl cau gweithfeydd Corus, mae Fframwaith Adfywio'r Pum Sir wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dadansoddiad o'r her economaidd sy'n wynebu'r is-ranbarth, gweledigaeth ar gyfer adfywio cynaliadwy ac argymhellion ar gyfer strategaeth a chynllun gweithredu. Ar 31 Ionawr, cyhoeddwyd y byddai amrywiaeth o brosiectau a argymhellwyd gan y Fframwaith yn cael eu hariannu gan Becyn Adfer Corus.

**Cefndir**

3. Roedd y pecyn cymorth a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog Cymru ar 3 Mai 2001 yn rhoi £66 miliwn i gynorthwyo'r rheini a oedd yn wynebu cael eu diswyddo a'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt drwy gau'r gweithfeydd. Roedd yn cynnwys ymrwymiad i baratoi fframwaith adfywio cynhwysfawr ar gyfer y 5 sir yr effeithiwyd arnynt fwyaf pan gaewyd y gweithfeydd yn ne ddwyrain Cymru, fel sail i benderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad ar sut i ddyrannu'r £32m a neilltuwyd ar gyfer yr ardal.
4. Ariannwyd cymorth ymgynghorol y prosiect gan becyn adfer Corus. Rhoddwyd adroddiad ar gynnydd i Weithgor y Cabinet, Tasglu Dur Cymru Gyfan a'r Grwp Gweithredol Dur.

**Y Fframwaith Adfywio**

5. Mae Fframwaith Adfywio'r 5 Sir wedi cael ei baratoi yn dilyn rhaglen eang o ymchwilio ac ymgynghori. Mae swyddogion ac aelodau etholedig o'r pum awdurdod lleol, swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, y WDA, ELWa a budd-ddeiliaid eraill, wedi cymryd rhan lawn yn y gwaith o baratoi'r Fframwaith.
6. Cynhaliwyd gweithdai gyda chynrychiolwyr budd-ddeiliaid allweddol er mwyn datblygu'r weledigaeth yr oeddent yn ei ffafrio ar gyfer yr is-ranbarth, gan ddefnyddio'r

dadansoddiadau a’r ymchwil a wnaed a’r cyd-destun a ddarparwyd gan ‘Cymru’n Ennill’. Mae’r Weledigaeth yn seiliedig ar y ffaith y bydd nifer o ffactorau sy’n achosi newid yn dylanwadu ar yr economi dros y 10 mlynedd nesaf. Yn eu plith mae tueddiadau cymdeithasol a demograffig; datblygiadau technolegol; galw am sgiliau gwell; cystadleuaeth fyd-eang; a datblygu cynaliadwy.

7. Nododd y weledigaeth yr oedd pobl yn ei ffafrio, a ddetholwyd drwy broses y gweithdy, nifer o dargedau allweddol ar gyfer sicrhau gwaith adfywio cynaliadwy, gan gynnwys gweithlu sy’n meddu ar lefel uchel o sgiliau/gwybodaeth, portffolio eiddo o safon uchel, system trafnidiaeth gyhoeddus is-ranbarthol effeithlon, twf mentrau bach a chanolig a chymorth i hybu canolfannau trefi fel llefydd i weithio a byw.

8. Mae’r Fframwaith yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

**Cynorthwyo Busnesau**

- Y WDA i weithredu rhaglen eiddo busnes garlam.
- Sefydlu Cwmni Adfywio Trefol ar gyfer Casnewydd.

**Annog Dyfeisgarwch**

- Cyflymu datblygiad Canolfan Arloesedd Glynebwy.
- Cyflymu datblygiad Canolfan Arloesedd Tor-faen.

**Annog Entrepreneuriaeth**

- Sefydlu Rhwydwaith Cymorth Busnesau Pum Sir.
- Ariannu astudiaeth ddichonoldeb ar y potensial am gyfleuster gweithgynhyrchu ysgafn a logisteg rhyngwladol yn Llanwern.
- Ariannu astudiaeth ddichonoldeb ar brosiectau gofal iechyd/cymdeithasol ym Mlaenau Gwent.

**Sefydlu 5 Sir yn y Byd**

- Gweithredu rhaglen i ddatblygu Safleoedd Strategol er mwyn cynnig portffolio eiddo o safon ryngwladol.
- Cefnogi prosiectau Partneriaeth Twristiaeth Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru.

**Gwlad sy’n Dysgu**

- Dyrannu arian ar gyfer y Campws Dysgu arfaethedig yng Nglynebwy.
- Dyrannu arian ar gyfer y Rhwydwaith Dysgu Cymunedol arfaethedig.
- Cyflwyno rhaglenni Cychwyn Cadarn/Pacific Institute ym Mlaenau Gwent.

**Creu Cymunedau Cryf**

- Y WDA a Chyllid Cymru i ystyried Cronfa Datblygu Mentrau Cymdeithasol sy'n cylchdroi.
- Cefnogi rhaglenni adfywio canolfannau trefi ym Mlaenau Gwent.

**Gwella Trafnidiaeth**

- Dyrannu arian tuag at ailagor llinell reilffordd Glynebwy.
- Cyflymu rhaglenni trafnidiaeth gyhoeddus TIGER.

**Hyrwyddo TGCh**

- Gwella mynediad band llydan drwy ddarparu seilwaith.
- Rhoi cymorth penodol i fusnesau ar gyfer e-gaffaeliad.
- Y WDA i nodi safleoedd busnes ar gyfer cyflymu'r ddarpariaeth band llydan.

**Gweithredu**

9. Mae'r Fframwaith yn argymell bod Fforwm Adfywio'r Pum Sir yn cael ei sefydlu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ELWa a'r WDA. Bydd y Fframwaith yn sail ar gyfer rhaglen adfywio dreigl flynyddol a fydd yn para am dair blynedd. Bydd y Fforwm yn cytuno ar y rhaglen ac yn ei gweithredu.

**Ymrwymiadau**

10. Ar ôl ystyried yr argymhellion hyn – a wnaed yn y Fframwaith drafft – cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar 31 Ionawr, y byddai arian yn cael ei flaenoriaethu i'r prosiectau canlynol:

- Cwmni Adfywio Trefol Casnewydd£10m
- Llinell Reilffordd Glynebwy£7m
- Campws Dysgu Glynebwy £5m
- Rhwydwaith Dysgu Cymunedol £2m
- Seilwaith a chymorth TGCh £3.55m
- Mentrau Cymdeithasol ac adfywio canolfannau trefi £2.4m
- Prosiectau eraill a gwaith dichonoldeb £2.1m

**Y Camau Nesaf**

11. Bydd Llywodraeth y Cynulliad nawr

- yn ymateb i'r argymhellion manwl a wnaed yn y Fframwaith.
- yn derbyn Adroddiad Dynodi ar gyfer Cwmni Adfywio Trefol Casnewydd erbyn diwedd Mawrth.
- yn ystyried yr achos dros ddefnyddio'r Fframwaith fel sail i fuddsoddi yn y dyfodol.
- fel y mae 'Cymru'n Ennill' yn ei awgrymu, yn ystyried, ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, rinweddau hyrwyddo'r dull cydweithredol hwn o ddatblygu strategaethau mewn rhannau eraill o Gymru.

**Themâu Trawsbynciol**

12. Mae'r Fframwaith wedi cael ei baratoi drwy broses gynhwysol sy'n cynnwys amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid o'r sector cyhoeddus, preifat a chymunedol/ gwirfoddol. Yn benodol, mae'r Fframwaith yn ceisio ysgogi dull cynaliadwy o adfywio'r economi sy'n golygu gweithredu ar y cyd. Mae hyn hefyd yn rhoi gwerth ychwanegol i'r broses adfywio cymunedol drwy nodi a mynd i'r afael â materion is-ranbarthol strategol a fydd yn cynorthwyo cymunedau difreintiedig i nodi rhaglenni adfywio effeithiol.

**Cydymffurfio**

13. Mae Adrannau 40 ac 85 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ar y cyd â swyddogaethau'r Cynulliad o ran Datblygu Economaidd, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynhwysiant Cymdeithasol a Thrafnidiaeth, yn caniatáu i'r mesurau a geir yn y Fframwaith gael eu hystyried. Mae'r rhain wedi'u dirprwyo i Brif Weinidog Cymru. Nid oes unrhyw faterion rheoleidd-dra a phriodoldeb. Yn unol â FN1/01, nid yw'n ofynnol i Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad (ACO) glirio'r papur hwn ond anfonwyd copi ohono i flwch post ACO i ddibenion monitro.

**Yr Uned Drefol**
**Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau**